wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

# Polisi Cyngor Wrecsam ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat Hygyrch i Gadeiriau Olwyn

Rhagfyr 2016

Polisi Drafft ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat Hygyrch i Gadeiriau Olwyn

Pwrpas y polisi yw sicrhau fod yr holl gerbydau sydd wedi eu trwyddedu fel Cerbydau Hurio Preifat gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn cydymffurfio gyda gofynion cymeradwyo cofrestru a theip. Bydd hyn yn sicrhau fod yr holl addasiadau a wneir i gerbydau wedi cael eu hasesu'n gywir gan yr awdurdod cymeradwyo perthnasol ac wedi eu hystyried yn addas ar gyfer cludo teithwyr mewn cadeiriau olwyn. Mae'r polisi yn cyflwyno safon ofynnol newydd ar gyfer trwyddedu'r cerbydau hyn.

**Cefndir**

Ym mis Hydref 2007, diwygiwyd Cynllun Cymeradwyo Teip Ewropeaidd ar gyfer ceir, sy'n cael ei adnabod fel Cymeradwyaeth Teip Cerbydau y Gymuned Ewropeaidd Gyfan (ECWVTA) i gynnwys mathau eraill o gerbydau fel Bysus, Coetsis a Cherbydau Pwrpas Arbennig (gan gynnwys Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn neu WAV). Cafodd y gofynion eu cyflwyno'n raddol dros ddyddiadau allweddol rhwng 2009 a 2014. Mae'r ddeddfwriaeth yn cynnwys cerbydau sy'n cael eu masgynhyrchu, wedi eu hadeiladu mewn sypiau bychan neu fel cerbydau unigol.

Daeth y gofyniad am gymeradwyaeth teip i Gerbydau Pwrpas Arbennig sydd wedi cael eu hadeiladu mewn ffactri yn orfodol ym mis Ebrill 2012. Cyn y dyddiad hwn, roedd ardystiad ar sail wirfoddol.

Mae tri math o ardystiad:

**ECWVTA** – Cymeradwyaeth Teip Cerbyd y Gymuned Ewropeaidd Gyfan ar gyfer cerbydau a weithgynhyrchir mewn niferoedd mawr. Mae Tystysgrif Cydymffurfio yn cael ei chyhoeddi ar gyfer pob cerbyd ac yna gellir gwerthu'r teip yma o gerbyd ar draws Ewrop heb unrhyw brofi pellach ym mhob gwlad.

**NSSTA** - Cymeradwyaeth Teip Cyfres Fach Cenedlaethol, ar gyfer cwmnïau sy'n gweithgynhyrchu niferoedd bychan ac o fewn y DU yn unig.

**IVS** - Cymeradwyaeth Cerbyd Unigol. Cynllun cenedlaethol y DU ar gyfer cerbydau sydd wedi eu gweithgynhyrchu yn y DU mewn niferoedd bychan. Mae'n cynnwys archwiliad ymarferol o bob cerbyd sy'n cael ei gynhyrchu, gan sicrhau fod y cerbydau wedi eu dylunio a'u gwneuthur i safonau diogelwch modern.

Mae'r cymeradwyaethau uchod yn cael eu rhoi yn dilyn profi ac archwilio cerbyd yn drwyadl. Mae'r profion uchod yn wahanol i MOT oherwydd eu bod yn ystyried dyluniad addasedig a gwneuthuriad y cerbyd yn fwy manwl. Mae MOT yn seiliedig ar y gwneuthuriad a'r rheoliadau defnyddio ac yn cynnwys eitemau sy'n gysylltiedig gyda rheoliadau a gofynion gorfodol.

Mae'r polisi'n cyflwyno'r safon ofynnol canlynol i bob Cerbyd sy'n Hygyrch i Gadeiriau Olwyn sydd angen Trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat.

**Sylwer: Ni fydd cerbydau sydd yng nghategori N1 yn derbyn cymeradwyaeth am drwydded.**

I gerbydau sy'n dal Ardystiad Cymeradwyaeth Teip ar ôl Addasiad:

**Cyn derbyn ystyriaeth ar gyfer Trwydded Cerbyd Hurio Preifat, rhaid darparu/cwblhau'r canlynol.**

- Rhaid darparu Tystysgrif Cymeradwyaeth Teip i safon ECWTVA (Ardystiad M1 Llawn neu M1 Cam 2) NSSTA neu IVA Gwirfoddol. Rhaid i'r ddogfen fod wedi cael ei chyhoeddi ar ôl i'r addasiadau gael eu gwneud a rhaid fod llyfr log wedi cael ei gyhoeddi neu ei ddiweddaru ar ôl addasiad.

- Bydd y cerbyd arfaethedig yn cael archwiliad ymarferol gan brofwr cerbydau CBSW yn yr orsaf brofi. Y rheswm dros hyn yw er mwyn adnabod ac asesu cyflwr yr addasiadau wnaed i'r cerbyd. Mae hyn yn ychwanegol i'r Prawf Cydymffurfio/MOT gofynnol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat ac nid yw'n cymryd lle'r gofyniad hwn.

- Fe ddylid sicrhau'r ddogfennaeth sy'n ymwneud â thrawsnewid cerbyd gan y sefydliad drawsnewidiodd y cerbyd lle'n bosib.

I gerbydau heb Gymeradwyaeth Teip ar ôl eu Haddasu:

**Os nad oes cymeradwyaeth teip yn bodoli ar gyfer y cerbyd yn ei gyflwr addasedig, rhaid i ymgeiswyr sicrhau'r dilynol, cyn ystyriaeth am Drwydded Cerbyd Hurio Preifat:**

- Dogfennaeth am drawsnewid neu addasu'r cerbyd gan y sefydliad drawsnewidiodd y cerbyd. Pwrpas hyn yw adnabod pa addasiadau wnaed a phryd gawsant eu gwneud.

- Tystysgrif Cydymffurfio gan y gwneuthurwr gwreiddiol (e.e. Citroen, Peugeot), gellir sicrhau hyn trwy gysylltu gyda'r cwmni yn uniongyrchol neu trwy ddelwriaeth lleol). Mae hyn yn rhoi trosolwg o'r cerbyd yn ei gyflwr cyn-addasu ac yn cynorthwyo i adnabod pa addasiadau sydd wedi cael eu gwneud.

- Ardystiad IVA Gwirfoddol, gellir sicrhau hwn trwy'r Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA). Yn unol gydag argymhellion DVSA, rhaid i ymgeiswyr sicrhau ardystiad 'IVA Gwirfoddol' o dan ddosbarth P (Mewnforio Personol) a (os wedi ei osod gyda Mynediad Pobl Anabl a safle seddi) dosbarth D (cerbyd pobl anabl). Mae'n rhaid i'r profion gael eu cynnal o dan y cynllun Gwirfoddol oherwydd na ellir profi cerbydau cofrestredig o dan y prawf statudol. Unwaith i ardystiad VIVA gael ei gyhoeddi, rhaid diweddaru llyfr log V5 y DVLA i gydnabod yr addasiadau.

- Bydd y cerbyd arfaethedig yn cael archwiliad gan brofwr cerbydau CBSW yn yr orsaf brawf. Y rheswm dros hyn yw adnabod ac asesu cyflwr yr addasiadau wnaed i'r cerbyd. Mae hyn yn ychwanegol i'r Prawf Cydymffurfio/MOT gofynnol ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat ac nid yw'n cymryd lle'r gofyniad hwn.

- Mae rhagor o wybodaeth ar IVS yn www.gov.vehicleapproval neu trwy ffonio 0300 123 9000.

LLAWLYFR IVA -
https://www.gov.uk/vehicle-approval/individual-vehicle-approval-manuals

FFURFLENNI IVA
https://www.gov.uk/vehicle-approval/individual-vehicle-approval-application-forms

CEFN SY'N CODI

Mae rhai WAV wedi eu gosod gyda Dyfais Cefn sy'n Codi wedi ei Foduro, sy'n galluogi'r gyrrwr i lwytho cadair olwyn a theithiwr yn ofalus i'r Cerbyd.
Mae'r math yma o ddyfeisiau wedi eu rheoli gan Reoliadau Gweithrediadau Codi a Chodi Offer 1998.

Lle mae'r math yma o ddyfais wedi ei gosod, rhaid iddi gydymffurfio gyda'r polisi uchod yn ogystal â'r gofynion statudol sydd wedi eu gosod yn y ddeddfwriaeth. Rhaid i dystysgrif LOLER addas a chyfredol gael ei rhoi cyn i'r cerbyd dderbyn trwydded ar gyfer Hurio Preifat.

Os oes cefn sy'n codi yn cael ei osod ar gerbyd gyda Thrwydded Hurio Preifat cyfredol, yna ni fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd trwyddedig nes bod yr holl ofynion yn cael eu cwrdd, bydd angen IVA Gwirfoddol er mwyn asesu addasiad y cerbyd.

Mae mwy o wybodaeth ar LOLER ar wefan Yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch http://www.hse.gov.uk/work-equipment-machinery/loler.htm neu trwy gysylltu 029 2026 3120

**Fe'ch cynghorir i beidio â phrynu cerbyd heb ddogfennau dilys digonol. Os nad ydych chi'n siŵr a fydd y cerbyd yn cael ei drwyddedu, fe'ch cynghorir yn gryf i wirio hynny gyda thîm trwyddedu'r Cyngor cyn llofnodi unrhyw gytundeb ariannol neu ymrwymo i brynu unrhyw gerbyd. Mae'r gofynion hyn yn berthnasol i bob cerbyd newydd neu ail-law (heb eu trwyddedu ar hyn o bryd) sy'n cael eu cyflwyno ar gyfer trwydded cerbyd hacni.**

**FFIOEDD**

Y ffi ar gyfer ystyriaeth ac archwilio cerbyd sy'n hygyrch i gadair olwyn yw £57, bydd y ffi yn daladwy cyn ystyriaeth a bydd yn gymwys os yw'r cerbyd yn cwrdd â'r meini prawf ai peidio. Os yw cerbyd yn cael ei gymeradwyo, bydd

rhaid iddo ymgymryd â'r cais safonol a'r broses brofi ar gyfer Cerbydau Hurio Preifat.